# PONTYPRIDD

Gohebydd Lleol: Anna Jones

CWIS LLYFRAU

Cafwyd diwrnod o gystadlu brwd yng Nghanolfan Athrawon Pontypridd yn nechrau Chwefror. Daeth tair ar ddeg o ysgolion i gystadlu yn rownd gyntaf Cwis Llyfrau i'r Ysgolion Cymraeg. Bydd chwe thîm yn mynd i'r ail rownd yn y Gwanwyn. Dan 10 oed - Ysgol Santes Tudful, Ysgol Ynyslwyd, Aberdâr ac Ysgol y Creigiau. A dros 10 oed - Ysgol Pont Siôn Norton, Ysgol Caerffili ac Ysgol Bodringallt, Y Rhondda.

Pob iwc iddynt ar y trafod ac ar y cyflwyno.

APÊL YR EISTEDDFOD

Erbyn hyn mae coffrau Apêl Pontypridd wedi cyrraedd £3500. Bydd Cyngerdd eto ym mis Mai i godi mwy o arian. Gobeithir gwahodd yr artistiaid canlynol :- Owen Money, Meinir Heulyn, Frank Henessey, Côr Plant Pontypridd.

KITCH

Calonogol iawn oedd gweld Canolfan Gymunedol y Trallwng yn llawn yn ddiweddar - gyda'r iaith Gymraeg yn diasbedain dros y Neuadd. Hen Gapel yw'r Neuadd ac yn ystod cyfnod yr Eisteddfod yr Urdd ddiwethaf ym Mhontypridd roedd y capel yn enghraifft o ddirywiad capeli, conglfaen yr iaith. Ond cafwyd noson wych - cymuned glos, dysgwyr, plant a hen bobl, paned a theisen ac yn bwysicach na dim pobl ieuanc Ysgol Gyfun Rhydfelen yn portreadu bywyd J. Kitchener Davies. Roedd y cyflwyniad gwreiddiol yn Ysgol Rhydfelen yn wych ond er fod Canolfan y Trallwng yn llai ni lesteiriodd hyn ddim ar eu perfformiad. Roedd eu hactio a'u canu yr un mor gaboledig - yn dangos parch at y gynulleidfa yn ogystal â thuag at destun eu drama gerdd. Diolch yn fawr iddynt.

TRALLWNG

Diddorol oedd gweld yr eglurhad o'r enw'r TRALLWNG yn y rhifyn olaf o Tafod Elai. Lle gwlyb lleidiog meddai Bedwyr Lewis Jones. Cyfeiria'r di-Gymraeg yn yr ardal i'r lle fel 'The Swamp' - gwir iawn oedd hynny pan ddaeth y Taf dros ei glannau. Tybed â yw Cyngor Taf-Elai wedi ystyried hyn a hwythau wrthi'n brysur yn creu

# PENTYRCH

Gohebydd Lleol:
Ann Dwynwen Davies (891344)

NOSON LAWEN

Bu'r Noson Lawen a drefnwyd gan Bwyllgor Apêl Eisteddfod yr Urdd yn llwyddiant ysgubol. Roedd Neuadd y Pentref dan ei sang nos Wener Ionawr 26ain a phawb yn mwynhau perfformiadau graenus gan tua 120 o blant ysgolion cynradd Pentyrch a Chreigiau. Arweinydd y noson oedd Peter Johnson, sy'n gyflwynydd poblogaidd ar Radio Wales ac yn frodor o'r pentre. Yn yr ail hanner cafwyd datganiad ar y delyn gan Eirian Dyfri Jones, athrawes yn Ysgol Gynradd Creigiau a thelynores o fri, a chyflwyniad o Ddawns y Glocsen gan Emma Caddy a Donna Jones o Ysgol Gyfun Rhydfelen, sy'n enillwyr cyson yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Ac nid gwledd i'r llygad a'r glust yn unig fu'r noson; yn ystod yr egwyl gweiniwyd ffagots a bara a phys i'r oedolion a chŵn poeth i'r plant. At ei gilydd roedd yn noson allan werth chweil i'r teulu, ac yn un fuddiol iawn i goffrau'r Eisteddfod hefyd.

YMWELWYR O LYDAW

Efallai i rai ohonoch feddwl fod 1992 wedi cyrraedd cyn pryd yn ddiweddar, o gerdded i mewn i rai o siopau'r pentref, a chael eich cyfarch mewn acen Ffrengig. Roedd tri o bobl ifanc o San Malo yma ar ymweliad cyfnewid profiad gwaith rhwng San Malo a Morgannwg Ganol, ac yn gweithio yn Siop Bapur Follis, siop drin gwallt Clare's a'r ysgol gynradd.

Yn wir roedd dros ddeg ar hugain ohonyn nhw ym Morgannwg Ganol i gyd, a bydd tua deugain o ddisgyblion chweched dosbarth y sir sy'n astudio Ffrangeg yn treulio pythefnos yn San Malo ym mis Ebrill.

CYDYMDEIMLO

Cyfnod trist fu'r Nadolig eleni i Gareth Miles a'r teulu yn y Graigwen. Bu farw tad Gareth - Dr Alwyn Miles yn y Waunfawr. Roedd Dr Miles yn feddyg ers blynyddoedd yn yr ardal ac yn ŵr uchel ei barch yn y fro. Ac yna ym mis Chwefror bu farw mam Gareth. Cydymdeimlwn â Gareth, Gill ac Elisabeth a'u teuluoedd yn eu colled.

Cyn y Nadolig hefyd bu farw tad Delyth Lewis yn Aberteifi. Mae Delyth yn athrawes yn Ysgol Llyn y Forwyn. Cydymdeimlwn â

# GWAELOD Y GARTH

Gohebydd Lleol: E.June Huws

FFAIR SBORION BETHLEHEM

Mae Capel Bethlehem wedi mabwysiadu teulu yn Kenya, sef mam a'i phedwar plentyn. Mae hanes trist iawn i'r teulu yma, Lladdwyd y tad gan Idi Amin yn Uganda a dihangodd y teulu i Kenya. Oherwydd eu sefyllfa fel ffoaduriaid ni chawsant gymorth ariannol gan y llywodraeth.

Tasg Capel Bethlehem yn awr yw codi £800 y flwyddyn i addysgu'r plant. Dechreuwyd drwy gynnal Ffair Sborion yn neuadd y Pentref, Ffynnon Taf ar fore Sadwrn 10ed Chwefror. Er gwaetha'r tywydd gwlyb eithriadol bu yn llwyddiant mawr a gwnaethpwyd elw o dros £300.

NOSON GWYL DDEWI

Trefnodd pwyllgor yr Urdd Gwaelod y Garth noson o adloniant yn neuadd y pentref ar Nos Fercher 28ain Chwefror. Bu Gill Green yn canu'r delyn, rhai o blant yr ysgol yn cyflwyno eitemau a rhai o drigolion y pentref yn cymeryd rhan.

CYDYMDEIMLAD

Estynnwn ein cydymdeimlad i Mrs Jennifer Hammet a'i theulu ar eu profedigaeth o golli tad a thadcu yn ddiweddar.

TLWS LLENYDDIAETH

Llongyfarchiadau i Gareth Rosser o Brynteg, Gwaelod y Garth ar ennill y Tlws Llenyddiaeth Saesneg yn Eisteddfod Ysgol Isaf, Ysgol Gyfun Rhydfelen.


**IWAN DAVIES**
**A'i Gwmni**
***CYFREITHWYR***
**(0443 - 485566)**
**Ffoniwch neu dowch i'n gweld yn Stryd y Farchnad, Pontypridd am gyngor a chynrychioldeb cyfreithiol o bob math, mewn swyddfa**